



YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL
GYMRAEG
COMMUNITY PRIMARY SCHOOL

**ADRODDIAD BLYNYDDOL Y LLYWODRAETHWYR
2013
ANNUAL GOVERNORS' REPORT**



Ysgol Gymraeg
Aberystwyth

**DYDD MAWRTH / TUESDAY
24 MEDI 2013 / 24 SEPTEMBER 2013**

*Croeso i bob Rhiant, Gwarcheidwad, Staff, Llywodraethwr
Welcome to all Parents, Guardians, Staff and Governors*

PWY 'DI PWY

WHO'S WHO?

CADEIRYDD Y LLYWODRAETHWYR / CHAIRMAN OF THE GOVERNORS:

Yr Athro D A Evans d/o Yr Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg
c/o Yr Ysgol Gymraeg Community Primary School

CLERC I'R LLYWODRAETHWYR / CLERK TO THE GOVERNORS:

Mr J E Evans
Adran Addysg / Education Department
Cyngor Sir Ceredigion County Council
' 01970 633675

PENNAETH / HEADTEACHER:

Mr C Williams Pennaeth/ Headteacher

LLYWODRAETHWYR / GOVERNORS:

ENW / NAME	STATWS/ STATUS	DIWEDD/ EXPIRY
Mr J O'Rourke	A.A.LI. / L.E.A.	2015
Yr Athro D A Evans	A.A.LI. / L.E.A.	2015
Cyng M A Strong	A A LI / L E A	2017
Cyng J E Roberts	A.A.LI. / L.E.A.	2017
Mr R J Morris	Rhiant / Parent	2015
Mr A Thomas	Rhiant / Parent	2013
Yr Athro R A Jones	Rhiant / Parent	2016
Mrs S Eirug	Rhiant / Parent	2014
Mr D A Jones	Rhiant / Parent	2015
Mr C Thomas	Cymunedol / Community	2013
Ms N Gwyndaf	Cymunedol / Community	2013
Mr P Thomas	Cymunedol / Community	2015
Mrs S E Davies	Cymunedol / Community	2014
Cyng Mrs M Jones	Cymunedol / Community	2017
Mr G James	Athro/Teacher	2014
Miss G Morgan	Athrawes/Teacher	2017
Mrs S Petherbridge	Staff	2017

YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL GYMRAEG ABERYSTWYTH

2013

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Mae'n fraint ac anrhydedd i mi fel Cadeirydd y Corff Llywodraethol gyflwyno adroddiad blynyddol ar gyfer Ysgol Gymraeg Aberystwyth. Wrth i ni edrych yn ôl ar y flwyddyn gwelwn fod yr ysgol yn parhau i gynnal y safonau uchaf o safbwynt gwaith cwricwlaidd a gweithgareddau allgyrsiol, mae'n siwr mae cryfder ac apêl Ysgol Gymraeg Aberystwyth yw ei gallu i blethu'r ddwy agwedd yma at ei gilydd er mwyn darparu profiadau cyfoethog ac addysg ragorol i'n plant drwy gyfrwng y Gymraeg.

Pleser gennyf felly yw diolch i'r Pennaeth, yr holl athrawon, cynorthwyr dysgu, staff ategol yn ogystal â'r disgyblion am lwyddiant cyson yr ysgol. Mae'n amlwg fod nodau'r ysgol o safbwynt Cymreictod, Parchu ein gilydd a Gwneud ein gorau glas yn parhau i ddylanwadu'n bositif ar y disgyblion ac yn cael effaith ar bawb sy'n nglwm ar sefydliad unigryw hwn.

Amser a lleoliad y Cyfarfod

Mae'r gofynion ar gyfer Cyfarfod Blynyddol y Llywodraethwyr yn newid (gweler y manylion isod) serch hynny mi fyddwn yn darparu cyfle i drafod materion sy'n ymwneud â'r ysgol, gwaith y llywodraethwyr a'r Awdurdod Addysg fel rhan o Gyfarfod Blynyddol y Gymdeithas Rieni ac Athrawon a gynhelir yn yr ysgol Gymraeg ar **nos Fawrth, Medi 24ain am 6.30**

NEWIDIADAU I GYFARFODYDD BLYNYDDOL Y RHINIEN / LLYWODRAETHWYR

Mae Adran 94 y Ddeddf Safonau a Threfniadaeth Ysgolion (Cymru) 2013 (y Ddeddf) yn gwneud newidiadau pwysig i'r trefniadau deddfwriaethol blaenorol oedd yn ymwneud â Chyfarfodydd Blynyddol y Rhieni/ Llywodraethwyr. Mae'n darparu trefniadau newydd lle gall rhieni ofyn am gyfarfod gyda chorff llywodraethol.

Fodd bynnag, bydd angen i'r rhieni fodloni pedwar (4) gofyniad statudol wrth alw cyfarfod sef:-

- (i) rhaid i rieni 10% o'r disgyblion cofrestredig, neu rieni 30 o'r disgyblion cofrestredig (pa un bynnag sydd isaf) arwyddo deiseb yn gofyn am gyfarfod;
- (ii) rhaid mai diben y cyfarfod yw trafod materion sy'n ymwneud â'r ysgol;
- (iii) y nifer fwyaf o gyfarfodydd y gall rhieni ofyn amdanynt o fewn unrhyw flwyddyn ysgol yw tri (3);
- (iv) rhaid bod yna ddigon o ddiwrnodau ysgol ar ôl yn y flwyddyn ysgol i ganiatáu cyfarfod.

At hynny:-

- (a) rhaid cynnal y cyfarfodydd cyn diwedd cyfnod o 25 niwrnod;
- (b) mae'r cyfnod o 25 niwrnod yn cychwyn y diwrnod ar ôl derbyn y ddeiseb, ond nid yw'n cynnwys unrhyw ddiwrnod nad yw'n ddiwrnod ysgol;
- (c) os oes angen cynnal cyfarfod arall o ganlyniad i ddeiseb wahanol, ni fydd y cyfnod o 25 niwrnod yn dechrau tan y diwrnod ar ôl cynnal y cyfarfod arall;

- (ch) rhaid bod digon o ddyddiau ar ôl yn y flwyddyn ysgol i gynnal cyfarfod cyn diwedd y cyfnod o 25 niwrnod;
- (d) bydd cyfarfodydd yn agored i holl rieni'r disgyblion cofrestredig yn yr ysgol, y Pennaeth ac unrhyw un arall a wahoddir gan y corff llywodraethol;
- (dd) mae'n rhaid i hysbysiad y cyfarfodydd i'r rhieni gynnwys dyddiad, amser a lleoliad y cyfarfod ynghyd â'r mater neu faterion i'w trafod.

Y mae copi o'r adroddiad hwn ar gael yn adran y llywodraethwyr ar safle wê'r ysgol – www.ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk. Croeso i bob rhiant /gwarcheidwad, staff a chyd lywodraethwyr i fynychu'r ysgol er mwyn trafod yr adroddiad ac ystyried unrhyw faterion sy'n codi.

Roedd 409 (cyfwerth 385.5 amser llawn) yn yr ysgol ym Mis Gorffennaf 2013 gyda Phennaeth, Dirprwy Bennaeth, 15 athrawon amser llawn a 6 o thrawon rhan amser. Mae tri aelod o'r staff llawn amser yn gweithredu fel Penaethiaid Adran yn y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 2 a'r Adran Anghenion Dysgu Ychwanegol. Mae gan yr ysgol dros 20 o Gynorthwyr sy'n cynorthwyo yn y Cyfnod Sylfaen ac yn cefnogi disgyblion sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Mae gan yr ysgol dîm effeithiol a gweithgar o staff ategol sy'n cefnogi gwaith o ddarparu y cyfleoedd gorau i'r disgyblion. Mae'r tîm yn cynnwys ysgrifenyddes, gofalwr, tri o lanhawyr, pump o gynorthwyr cinio a phump o staff yn y gegin.

Pennaeth Ymgynghorol - Mae'r Pennaeth wedi bod yn gweithredu fel Pennaeth Ymgynghorol ers Ionawr 2011 ac yn cydweithio gyda'r Awdurdod Addysg er mwyn cefnogi ysgolion eraill a rhannu arfer dda.

Hyfforddiant mewn swydd

Gellir cael manylion llawn o'r cyrsiau a fynychwyd gan y staff rhwng Medi 2012 ac Awst 2013 o'r ysgol. (gweler engreiffiau o'r cyrsiau isod) Carwn ddiolch i'r staff am fynychu'r cyrsiau hyn.

Engreiffiau o Hyfforddiant Mewn Swydd a fynychwyd.

Chwefror 7fed	Mared Llwyd – hyfforddiant ar gyfer cynorthwyo'r Awdurdod Addysg i fonitro gwersi Rhifedd
Chwefror 18fed	Staff ysgol gyfan yn derbyn hyfforddiant ar gyfer creu adroddiadau hunanarfarnu gan Gillian
Chwefror 20ed	Pennaeth mewn cyfarfod gydag Athrawon Newydd Gymhwyso
Chwefror 25ain	Dyfed Jones - asesu ar gyfer dysgu mewn Addysg Gorfforol
Mawrth 14eg	Angharad Morgan – mathemateg yn y Cyfnod Sylfaen
Mawrth 19eg	Hyfforddiant ar gyfer gwariant arian llythrennedd a rhifedd yng Nghanolfan Rheidol
Mawrth 21ain	Gwenan Morgan – cynllunio yn y Cyfnod Sylfaen
Mawrth 26ain	Eleri Jones – hyfforddiant Cyfnod Sylfaen – ardal allanol
Mawrth 28ain	Staff ysgol gyfan – cyfres o gyrsiau i gynorthwyr gyda'r athrawon yn canolbwyntio ar
Ebrill 23ain	Mared Llwyd – cymedroli iaith
Ebrill 24ain	Gareth James – cymedroli gwyddoniaeth
Ebrill 25ain	Dyfed Jones – cymedroli mathemateg
Ebrill 26ain	Cyfarfod Penaethiaid yn y Llyfrgell Genedlaethol
Ebrill 30ain	Hyfforddiant Diogelu Plant lefel 2 i'r Pennaeth
Mai 13eg	Cyfarfod busnes ar gyfer Penaethiaid y cylch yn yr ysgol am 4 o'r gloch

Cyfarfod Blynyddol (Hydref 2012)

Cafwyd cyfarfod brwdfrydig ac yn dilyn cyflwyniad gan y Pennaeth a'r Cadeirydd. Cafwyd trafodaeth ynglŷn â rhai pynciau penodol yn ymwneud â dysgu ac addysgu a'r Cynllun Datblygu Ysgol.

Camau a gymerwyd o ganlyniad i unrhyw benderfyniadau a wnaed yn y cyfarfod - Ni chafwyd penderfyniad yng nghyfarfod Hydref 2012.

Aelodau'r bwrdd llywodraethol

Cadeirydd y llywodraethwyr yw:

Yr Athro Andrew Evans, Yr Ysgol Gymraeg, Coedlan Plascrug, Aberystwyth, SY23 1HL.

Clerc y llywodraethwyr yw:

Lynda Stubbs, Adran Addysg Cyngor Sir Ceredigion, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, SY23 3UE.

Rhydd yr atodiad restr o lywodraethwyr yr ysgol, pwy sy'n eu hapwyntio a'r dyddiad y daw tymor mewn swydd i ben.

Manylion ariannol -

Gweler atodiad sy'n amlinellu datganiad llawn o gyllideb yr ysgol.

Sut mae'r ysgol yn defnyddio'r arian a dderbynir

- Defnyddiwyd cyllideb yr ysgol er mwyn sicrhau y profiadau addysgol gorau i'r disgyblion ac i sicrhau adnoddau addas ar eu cyfer. Cryfder y trefniant presennol yw sicrhau ein bod yn medru cynnal dau ddosbarth ar gyfer pob blwyddyn gyda'r cyllid sydd ar gael.

Mae'r ysgol yn defnyddio grant llythrennedd a rhifedd a dderbyniwyd gan yr Awdurdod er mwyn cyflogi staff ychwanegol i godi safonau yn y meysydd yma.

Rhoddion i'r ysgol

Rhoddion i'r ysgol – derbyniwyd sic o £100 gan riant fel arwydd o ddiolchgarwch am waith yr ysgol – defnyddiwyd yr arian i brynu llyfrau darllen i Gyfnod Allweddol 2.

Rhoddion / cyfraniadau a dderbyniwyd - Cyfanswm o tua £2000 gan y Gymdeithas Rieni sy'n cynnwys nawdd gan fusnesau lleol yn sgil noddï cyngherddau Nadolig a Haf. Mae'r ysgol yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth yn fawr.

Lwfansau neu gynhaliaeth i'r Bwrdd llywodraethol

Costau teithio y llywodraethwyr – Ni dalwyd unrhyw gostau i'r llywodraethwyr yn ystod y flwyddyn 2012-13. Dymunaf ddiolch i'm cydlywodraethwyr am roi eu gwasanaeth yn hollol wirfoddol er budd a lles yr ysgol.

Perfformiad yr ysgol mewn asesiadau diwedd Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2

Gwybodaeth gymharol am asesiadau'r disgyblion ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 – (gweler tabl canlyniadau)

Mae'r ysgol yn bles iawn gyda'r cynnydd sydd i'w weld yn asesiadau'r disgyblion yn y ddau Gyfnod Allweddol (Gweler atodiadau am asesiadau disgyblion) mae'r canlyniadau rhagorol yn adlewyrchiad o

waith caled y disgyblion, y staff a chydweithrediad y rhieni / gwarcheidwaid. Mae'r ysgol yn perfformio yn dda iawn o gymharu ag ysgolion tebyg yn sirol ac yn genedlaethol.

Presenoldeb y disgyblion

Cyfnod	Presennol	Absenoldeb gyda caniatad	Absenoldeb heb
Hydref	96.16	3.82	0.02
Gwanwyn	92.75	7.15	0.10
Haf	95.36	4.45	0.20
2012 -13	94.95	4.94	0.11

Sylwebaeth am bresenoldeb yr ysgol

Rydym yn bles gyda chyfartaledd presenoldeb yr ysgol. Gosodwyd targed gan y llywodraethwyr am y dair mlynedd nesaf.

Gwella presenoldeb a lleihau absenoldebau heb ganiatad

Mae'r ysgol yn dilyn camau pendant i leihau absenoldebau heb ganiatad, Mae plant sy'n cyrraedd yn hwyr yn medru effeithio ar absenoldebau anawdurdodedig. Mae'r ysgol yn danfon llythyr i rieni i bwysleisio prydlondeb ac i dynnu sylw at y sefyllfa lle mae rhai yn cymryd gwyliau yn ystod tymor yr ysgol. Mae'r ysgol yn cysylltu gyda rhieni / gwarcheidwaid lle mae lefel presenoldeb yn isel neu'n anghyson.

Plant sy'n gadael yr ysgol ar ddiwedd Blwyddyn 6 – mae disgyblion ar ddiwedd Blwyddyn 6 yn trosglwyddo fel arfer i ysgolion uwchradd y dref sef Penweddig a Phenglais. Mae gan yr ysgol bartneriaeth bositif gyda'r ysgolion uwchradd ac yn gweithredu cynlluniau pontio effeithiol.

Meithrin cysylltiadau rhwng yr Ysgol a'r Gymuned

Y mae'r ysgol yn un o brif sefydliadau'r dref ac yn rhan annatod o'r gymuned leol. Mae'r ysgol yn gwneud defnydd arbennig o adnoddau lleol gan gynnwys y Llyfrgell Genedlaethol, Y Brifysgol, Canolfan Hamdden, Canolfan y Celfyddydau a'r ysgol uwchradd leol. Bu'r ysgol ar nifer o ymweliadau addysgol gan gynnwys Castell Henllys, Yr Ardd Fotaneg, Ffermydd Lleol, Stadiwm y Mileniwm, Glanllyn a.y.y.b. Bu'r ysgol yn perfformio i fudiadau lleol ac mae cefnogaeth dda iawn i'r ddau gyngerdd mawreddog blynyddol yng Nghanolfan y Celfyddydau.

Cynhaliwyd gweithgareddau er mwyn hybu dealltwriaeth o godi arian at achosion da yn ystod y flwyddyn.

Cymdeithas Rien i ac Athrawon / Cyfeillion yr Ysgol

Hoffwn ddiolch i'r Gymdeithas Rien i ac Athrawon a holl gyfeillion yr ysgol am eu cefnogaeth yn ystod y flwyddyn. Mae'r Gymdeithas Rien i ac athrawon yn weithgar a brwdfrydig iawn ac yn llwyddo i gynnal am-rywiol weithgareddau i godi arian tuag at brynu adnoddau ychwanegol i'r ysgol ac i drefnu achlysuron cymdeithasol gyda naws deuluol iddynt.

Cynhaliwyd gweithgareddau drwy gydol y flwyddyn gan gynnwys Ffair lyfrau, Cyngherddau, Prynawn Coffi, Noson Gymdeithasol / Barbeciw a Thaith Gerdded Noddedig. Bydd adroddiad llawn o'r gweithgareddau a'r arian a godwyd yng nghyfarfod blynyddol y Gymdeithas Rhieni yn nhyr y Hydref.

Mawr yw ein diolch fel llywodraethwyr a staff yr ysgol am gyfraniad ariannol arbennig y Gymdeithas sydd yn gymorth mawr i dalu am adnoddau gwerthfawr er budd yr ysgol. Mae'r Gymdeithas yn brysur iawn ac yn cymryd parch a brwdfrydedd yn yr holl weithgareddau.

Cyfarfodydd Rhieni

Mae yna bartneriaeth ragorol yn bodoli gyda'r rhieni.

Trefnir

- Cyfarfod llywodraethwyr a'r rhieni bob Hydref.
- Cyfarfod blynyddol y Gymdeithas Rhieni ac Athrawon.
- Nosweithiau agored bob tymor a gwahoddiad i'r rhieni i ddod i'r ysgol ar ôl derbyn adroddiadau eu plant ym mis Gorffennaf.
- Gwahoddiad i rieni ddod i brynawn agored yn yr ysgol.
- Gwahoddiad i rieni fynychu gwasanaethau boreol.
- Gwahoddiad i rieni i fabolgampau'r ysgol.
- Cynhelir dau gyngerdd mawr y flwyddyn (gyda thua 700 yn mynychu bob tro).
- Cyfarfod ar gyfer rhieni plant y meithrin sydd am gychwyn yn yr ysgol.
- Cyfarfod rhwng rhieni plant sy'n derbyn cefnogaeth a'r athrawon.

Mae'r pennaeth yn nodi ar bob llythyr "os oes gennych unrhyw bryderon am addysg eich plentyn yna cysylltwch â mi ar unwaith"

Defnydd o'r adeilad / campws - Cyfarfod rhieni ac athrawon yr Ysgol Gymraeg, rhai timau pêl-droed, gwersi Cymraeg i oedolion gyda gofal plant, yr Angor (papur bro Aberystwyth) a Chlwb Bridge.

Cysylltiadau gyda'r Heddlu – mae swyddogion o'r Heddlu yn gweithio'n agos gyda'r ysgol ac yn cyfrannu yn bositif at weithgareddau addysg bersonol a chymdeithasol. Mae'r heddlu yn trafod gyda'r Cyngor ysgol ac yn cynorthwyo gyda'r drafnidiaeth ger mynedfa'r ysgol. Mae'r ysgol yn ddiolchgar am eu cydweithrediad.

Cynnydd ar Gynllun Gweithredu'r Ysgol (ar ôl arolygiad)

Mae'r ysgol wrthi'n gweithredu'r Cynllun Gweithredu yn dilyn adroddiad Estyn yn Chwefror 2009. Dyma grynodedb o'r datblygiadau.

Materion Allweddol

Crynodeb o ddatblygiadau

Cynllun gweithredu yn dilyn arolwg 2009 (diweddariad)	
1. Cynllunio'n fwy bwriadus y cyfleoedd i ddisgyblion ddefnyddio eu medrau mathemateg dydd i ddydd (Estyn 2009)	Yn parhau - ers yr Arolwg mae'r ysgol wedi rhoi strwythur pendant mewn lle ar gyfer sicrhau fod rhif yn cael sylw wythnosol yn llyfrau thema'r disgyblion. Yn ystod monitro wythnosol y Pennaeth o lyfrau'r disgyblion rhoddir sylw arbennig i ddefnydd rhif ar draws y cwricwlwm. Trafodir defnydd priodol o rif ar draws y cwricwlwm yn y cyfarfodydd staff a cheir cyfle i rannu arfer dda. Mae'r ysgol wedi datblygu cysylltiad rhwng rhif â themau y Pwyllgor Eco ar gyfer pob dosbarth.
2. Rhaeadru'r arferion gorau mewn perthynas ag ymateb i waith ysgrifenedig y disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 (Estyn 2009)	Yn parhau - llyfrau thema'r disgyblion yn cynnwys gwaith wedi ei farcio'n ofalus. Yn dilyn yr arolwg rydym yn dilyn y patrwm o sicrhau ein bod yn rhoi dau sylw cadarnhaol ac un sylw am agwedd sydd angen ei gwella. Mi fyddem yn disgwyl gweld y sylwadau yma o leiaf pob pum gweithgaredd yn y llyfrau thema. Yr ysgol wedi symud i gyfeiriad o gael y disgyblion yng Nghyfnod Allweddol 2 i ddefnyddio dwy seren a dymuniad.

<p>3. Cysoni ansawdd adroddiadau hunan ar-farnu pynciol gyda'r arferion gorau sydd eisioes yn bodoli yn yr ysgol, fel eu bod yn mynegi barnau am safonau (Estyn 2009)</p>	<p>Mi fydd y cydlynwyr yn parhau i astudio gwaith disgyblion ac i gasglu darnau o waith plant sy'n cyfoethogi'r adroddiad hunan arfarnu. Mae'r adroddiadau diweddaraf yn rhoi sylw i ddata perfformiad y disgyblion a rhagamcan o'u cyrhaeddiad ar gyfer y blynyddoedd nesaf. Nifer o'r Llywodraethwyr wedi treulio cyfnodau yn yr ysgol yn trafod gyda'r cydgysylltwyr pynciau ar gyfer cwblhau'r adroddiadau hunanarfarnu pynciol. Cafwyd cyfarfod staff arbennig i edrych ar hunanarfarnu ac yn benodol ar addasu yr adroddiadau sydd gyda ni yn barod. Daeth Gillian Evans a Hilary McConell i gynnig syniadau parthed ffyrdd o gasglu tystiolaeth a chofnodi ein canfyddiadau.</p>
<p>4. Parhau i gydweithio gyda'r awdurdod lleol i sicrhau symudiad rhwydd i drafnidiaeth wrth fynedfa'r ysgol ar adegau prysur o'r dydd</p>	<p>Mae datblygiadau ger y brif fynedfa wedi gwella'r ddarpariaeth ac wedi sicrhau sefyllfa mwy diogel ar gyfer y disgyblion a'r rhieni / gwarcheidwaid. Ers y cyfarfod diwethaf bu'r Pennaeth, Mr Phil Thomas, Is-gadeirydd y Llywodraethwyr a Mrs Lowri Jones, Cadeirydd y Gymdeithas Rieni ac Athrawon wedi bod mewn cyfarfod strategol i drafod posibilïadau ar gyfer rheoli'r sefyllfa drafnidiaeth ger yr ysgol. Cafwyd cynrychiolaeth dda o'r ysgolion lleol, yr Awdurdod Addysg, yr Adran Drafnidiaeth / Priffyrdd a'r Ganolfan Hamdden. Yn dilyn trafodaeth fanwl cytunwyd i ddanfon llythyr i bob rhiant ym Mhlas-crug a'r ysgol Gymraeg yn egluro fod modd parcio yn ddi – dâl ger Camau Bach yn ystod 8.30 a 9.30 ac ar ddiwedd y diwrnod ysgol. Mae'r heddlu yn momnitro parcio ger yr ysgol yn gyson.</p>

Hunanarfarnu Chynllun Datblygu Ysgol

Prif flaenoriaethau'r ysgol

1. Codi safonau Llythrennedd a Rhifedd
 2. Ymestyn disgyblion Abl a Thalentog
 3. Datblygu adnoddau TGCH
 4. Datblygu ardaloedd dysgu ac addysgu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen
 5. Gwella'r adeilad
 6. Datblygu'r ddogfen hunanarfarnu
- Diweddarau'r Cynllun Datblygu Ysgol

Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da i ddatblygu'r agweddau yma yn ystod y flwyddyn – gellir cael copi llawn o'r CDY gan y pennaeth.

Gwelliannau a osodwyd gan y Corff Llywodraethol ynglŷn â pherfformiad y disgyblion

Targedau ar gyfer y dair mlynedd nesaf

Gweler y targedau ar gyfer nifer y disgyblion fydd yn cyrraedd deiliant 5 neu'n uwch yn y Cyfnod Sylfaen a lefel 4 neu'n uwch yng Nghyfnod Allweddol 2 am y dair mlynedd nesaf. Mae'r ysgol yn gosod y targedau yma yn sgil y wybodaeth bresennol sydd gennym am y disgyblion yn ôl asesiadau athrawon blynyddol. Yn ogystal â hyn rydym yn gosod lefel o her ar gyfer y dyfodol er mwyn codi safonau yn barhaus.

	Haf 2014	Haf 2015	Haf 2016
Cyfnod Sylfaen	98% (cyfartaledd)	98.1%	98.2%
Cyfnod Allweddol 2	98% (cyfartaledd)	98.1%	98.2%

Sylwebaeth

- Mae'r ysgol wedi gwneud cynnydd da o safbwynt asesiadau'r disgyblion yn y ddau Gyfnod Allweddol gyda chynnydd cyson dros y dair blynedd ddiweddaraf.
 - Mae'r canlyniadau yn adlewyrchu yn bositif ar y targedau heriol â osodwyd pob blwyddyn.
 - Yn dilyn asesiadau cyson a nifer o brofion nodir pa lefel / deilliant y mae pob plentyn yn cyrraedd erbyn diwedd y flwyddyn. Ceir cysylltiad agos rhwng athrawon er mwyn cymedroli lefelau ac adnabod y ffordd ymlaen i'r plentyn unigol.
 - Mae plant yn derbyn targedau cyson yn laith, Mathemateg, Gwyddoniaeth a Saesneg yng Nghyfnod Allweddol 2.
 - Fel ysgol rydym yn anelu i sicrhau bod 98% o blant yn y Cyfnod Sylfaen a 98% o blant yn Cyfnod Allweddol 2 yn cyrraedd y lefel / deilliant disgwylidig (deilliant 5 neu'n uwch ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a lefel 4 neu'n uwch ar gyfer CA 2).
- Rhoddir adroddiad manwl i bob rhiant ar ddiwedd y flwyddyn a bydd nosweithiau agored cyson a chyfle i drafod yr adroddiad diwedd y flwyddyn.

Targedau presenoldeb

Er mwyn lleihau absenoldebau anawdurdodedig mae'r ysgol wedi gosod targedau heriol ar gyfer presenoldeb ar gyfer y dair mlynedd nesaf. Mae llythyron cyson o'r ysgol yn annog lefel uchel o bre-senoldeb ar gyfer yr holl ddisgyblion.

Targedau presenoldeb ar gyfer Blwyddyn addysgol 2013 - 14	96.6%
Targedau presenoldeb ar gyfer Blwyddyn addysgol 2014 - 15	96.7%
Targedau presenoldeb ar gyfer Blwyddyn addysgol 2013- 16	96.8%

Diarddel Plant

Ni waharddwyd yr un disgybl yn ystod y flwyddyn addysgol 2012-13

Adolygu Polisiau a strategaethau'r ysgol – mae'r ysgol yn adolygu polisiau yn gyson er mwyn sicrhau y ddarpariaeth orau ar gyfer y disgyblion. Yn ystod 2012-13 adolygwyd polisiau yn ymwneud ag iechyd a diogelwch, diogelu plant, bwlio, a rhai agweddau cwricwlaidd.

Gweithredu ar ôl adolygu polisiau - Mae'r datblygiadau yn cael eu monitro'n gyson yn y cyfarfodydd tymhorol. Mae staff o'r ysgol wedi derbyn hyfforddiant pellach ar ddiogelu plant ac mae datblygiadau wedi eu gwneud i sicrhau diogelwch y drysau allanol.

Chwaraeon a Gweithgareddau Allgyrsiol

Mae'r ysgol yn darparu amrywiaeth o weithgareddau chwaraeon ym mhob agwedd o Addysg Gorfforol. Mae'r disgyblion yn meithrin sgiliau a phrofiadau o'r Meithrin i fyny at Flwyddyn 6. Mae'r ysgol yn profi llwyddiant ar lefel genedlaethol ac yn 2012-13, llwyddwyd i gyrraedd safonau uchel yn rowndiau cenedlaethol mewn nofio, trawsgwlad, athletau a chriced.

Mae yna raglen allgyrsiol eang sy'n anelu at foddio diddordebau holl ddisgyblion yr ysgol. Cyhelir Clwb yr Urdd yn wythnosol lle mae staff yr ysgol yn gwirfoddoli i gynnig gweithgareddau amrywiol i'r disgyblion. Mae'r gweithgareddau yng Nghyfnod Allweddol 2 yn cynnwys chwaraeon, clwb celf, clwb gymnasteg a chlybiau gweithgareddau amrywiol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Mae'r ysgol yn cefnogi gweithgareddau hoci gyda chyngrhair y Mini Minor.

Mae cysylltiad cryf yn bodoli rhwng yr ysgol â mudiad yr Urdd ac mae disgyblion yn cael profiadau cyfoethog wrth ddilyn rhaglen o weithgareddau'r flwyddyn. Pob blwyddyn mae staff yr ysgol yn paratoi disgyblion ar gyfer yr eisteddfodau cylch, rhanbarthol a chenedlaethol ac yn profi llwyddiant mewn amrywiol feysydd ar lefel genedlaethol. Mae'r ddau gyngerdd a gynhelir yn y Neuadd Fawr yn boblogaidd iawn gan y rhieni a'r gymuned. Campau Chwaraeon a Chyrhaeddiadau eraill

Newidiadau i Lawlyfr yr ysgol – Mae'r llawlyfr yn cael ei adolygu a'i ddiweddarau yn dymhorol. Mae copi o'r llawlyfr ar gael ar wefan yr ysgol neu drwy law'r pennaeth. Ni fu newidiadau i'r llawlyfr yn ystod y flwyddyn gyfredol.

Dyddiadau'r tymor ar gyfer y flwyddyn

Tymor yr Hydref – Medi'r 3ydd – Rhagfyr 20fed (hanner tymor Hydref 28 – Tachwedd1af)

Tymor y Gwanwyn – Ionawr 7ed – Ebrill 11eg (hanner tymor Chwefror 24ain – 28ain)

Tymor yr Haf – Ebrill 28ain - Gorffennaf 18fed (hanner tymor Mai 26in 30ain)

Diwrnodau cau HMS

Medi 2ail, 2013

Tachwedd 15fed, 2013

Ionawr 6ed, 2014

Chwefror 21ain, 2014

(diwrnod arall i'w gadarnhau)

Amserau Sesiynau

	CA 2	Cyfnod Sylfaen	Meithrin
Cychwyn yr ysgol	9.00	9.00	9.00
Egwyl bore	10.30 – 10.45	10.30 – 10.45	10.30 – 10.45
Cinio	12.00 – 1.00	11.45 – 1.00	11.50 – 1.15
Cychwyn y prynawn	1.00	1.00	1.15
Egwyl y prynhawn	2.15 – 2.30	2.15 – 2.30	2.15 – 2.30
Amser gorffen	3.30	3.30 (Bl 1 a 2) 3.20	3.20

Cwricwlwm a threfniadaeth addysgu

Mae ansawdd ac amrywiaeth y profiadau dysgu a ddarperir i'r disgyblion ar draws yr ysgol yn rhagorol. Cynigir Cwricwlwm eang a chytbwys sy'n cwrdd â'r holl ofynion statudol. Mae'r athrawon yn parhau i adolygu'r cwricwlwm yn sgil datblygiadau newydd. Mae pwyslais mawr yn cael ei osod ar ddatblygu sgiliau cyfathrebu, sgiliau rhif, sgiliau TGCh a sgiliau meddwl. Mae'r ysgol wedi cynllunio'n fanwl ar gyfer gweithredu'r Cyfnod Sylfaen. Gellir cael copi o gynllun Datblygu'r Ysgol gan y Pennaeth. Mae gan yr ysgol dau ddsbarth i bob blwyddyn addysgol.

Anghenion Dysgu Ychwanegol Mae'r ysgol yn gwneud pob ymdrech i sicrhau fod pob plentyn yn teimlo'n rhan annatod o fywyd a gwaith yr ysgol ac yn cyflawni eu potensial fel unigolion. Mae'r ysgol yn adolygu y polisi Anghenion Dysgu Ychwanegol yn rheolaidd er mwyn sicrhau cefnogaeth addas i ddisgyblion.

Mrs Nia Gwyndaf yw'r llywodraethwraig sy'n gyfrifol am Anghenion Dysgu Ychwanegol.

Disgyblion sydd ag anableddau Mae campws yr ysgol wedi ei addasu'n gyson er mwyn rhoi mynediad rhwydd i ddisgyblion sydd ag anableddau, gosodwyd rampiau i hybu mynediad i

ddosbarthiadau a llwyddwyd drwy gynllunio gofalus a sensitif i blethu plant ag anbleddau yn llawn i gwricwlwm yr ysgol.

Categori iaith yr ysgol – Ysgol Gymraeg benodedig

Defnydd o'r Gymraeg yn yr ysgol

- Defnyddir y Gymraeg yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2 fel y brif iaith ym mhob rhan o waith cwricwlaidd ac allgyrsiol yr ysgol. Cyflwynir Saesneg i ddisgyblion ym Mlwyddyn 3.
 - Y Gymraeg yw iaith gyfathrebu naturiol yr ysgol.
 - Nid oes unrhyw gyfyngiad ar ddefnydd y Gymraeg yn yr ysgol, hyrwyddir y Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd a gwaith Ysgol Gymraeg Aberystwyth.
 - Mae'r ysgol yn sicrhau drwy gynllunio gofalus fod yna barhad a datblygiad cyson yn y profiadau i ddefnyddio'r Gymraeg yn holl weithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol yr ysgol.
 - Mae disgyblion sy'n hwyr ddyfodiaid i'r ysgol yn medru cymryd mantais o ddarpariaeth y Ganolfan Iaith a drefnir gan yr Awdurdod Addysg yn ysgol uwchradd Penweddig.
- Mae disgyblion yn trosglwyddo i ysgolion uwchradd y dref lle mae cyfleoedd iddynt barhau i ddatblygu eu defnydd o'r Gymraeg. Mae cyfleoedd pontio estynedig ar gael i ddisgyblion sydd angen magu rhagor o hyder yn y Gymraeg ar gael yn ystod tymor yr haf.

Trefniadau a chyfleusterau toiled -

Mae gan yr ysgol nifer addas o doiledau ar gyfer y disgyblion sydd wedi eu cofrestru yn yr ysgol. Mae'r cyfleusterau yn cael eu glanhau yn ddyddiol gan wasanaeth glanhau yr Awdurdod Addysg.

Cynnal a chadw'r adeiladau

Mae'r ysgol yn falch iawn o'r estyniad i'r neuadd sydd wedi darparu gofod ychwanegol i hybu gweithgareddau cwricwlaidd ac allgyrsiol. Mae'r ysgol wedi gwneud defnyd o gynllun benthyciad gan yr Awdurdod Addysg er mwyn talu am y gwaith, mi fydd yr ysgol yn talu £14,429 yn ôl i'r Awdurdod dros gyfnod o ddeng mlynedd.

Mae'r Clwb brechwast yn gweithredu'n effeithiol bob bore ac mae'r ysgol yn anelu at weithredu Clwb Gofal Plant ar ôl ysgol erbyn medi 2013, mi fydd y clwb yn debyn disgyblion 8 – 11 oed i ddechrau gyda'r bwriad o ehangu'r clwb erbyn Ionawr 2014.

Diogelwch

Y mae Yswiriant yr ysgol yn caniatáu disgybl i fod yn yr ysgol o 8.45 ymlaen (Clwb Brechwast 8.15-8.45). Yn y prynhawn bydd y plant Meithrin yn gadael am 3.20 a'r disgyblion eraill am 3.30. Cyn hynny mae disgywl i rieni neu warchodwyr nodi eu presenoldeb yn y swyddfa ger y brif fynedfa.

Rhaid parcio'n ofalus o flaen yr ysgol a pheidio parcio mewn manau anabl/tacsi nac ar y gwair. Ni ddylid ychwaith barcio ar ffordd ysgol Plascrug oherwydd y peryg o dagfeydd traffig.

Mae diogelwch yn bwysig iawn i'r llywodraethwyr, yr Uwch Dim Reoli, y Cyngor Ysgol a'r staff. Oherwydd niferoedd yn yr ysgol a bod yna dair ysgol fawr yn defnyddio'r un ffordd, rhaid bod yn ofalus a pharchu eraill.

Datblygiadau diogelwch yr adeilad – mae'r ysgol wedi gosod cleon electronig ar y drysau allanol er mwyn gwella diogelwch ac atal mynediad i ddieithriad.

Torri i mewn

Cafwyd un achos o dorri i mewn i'r ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd yma.

Mr Andrew Evans, Cadeirydd y Llywodraethwyr

YSGOL GYNRADD GYMUNEDOL GYMRAEG ABERYSTWYTH

2013

Dear Parent / Guardian,

It's an honour and privilege for me as Chairman of the Governing Body to present the annual report for Ysgol Gymraeg Aberystwyth. As we look back at the year we see that the school continues to maintain the highest standards with regards to curricular work and extracurricular activities, surely the strength and appeal of Ysgol Gymraeg Aberystwyth is its ability to combine these two aspects in order to provide rich experiences and exceptional education for our children through the medium of Welsh.

It's my pleasure therefore to thank the Headmaster, all the teachers, learning assistants, support staff as well as the pupils for the consistent success of the school. It's obvious that the school's objectives with regards to Welshness, Respecting each other and Doing our very best continue to have a positive impact on the pupils and have an effect on everyone who's involved with this unique organisation.

Date and location of the meeting

The requirements for the Governors' Annual Meeting are changing (details below) however we will provide an opportunity to discuss matters to do with the school, the work of the governors and the Education Authority as part of the Parent Teachers' Association Annual Meeting which will be held on **Tuesday evening, September 24th at 6.30**

CHANGES TO THE PARENTS / GOVERNORS ANNUAL MEETINGS

Section 94 of the School Standards and Organisation (Wales) Act 2013 (the Act) makes important changes to the previous legislative arrangements with regards to Parent/Governors Annual Meetings. It provides new arrangements where parents can ask for a meeting with the governing body.

However, the parents will have to satisfy four (4) statutory requirements when requesting a meeting namely:-

- (i) the parents of 10% of the registered pupils, or the parents of 30 of the registered pupils (whichever is lowest) must sign a petition asking for a meeting;
- (ii) the purpose of the meeting must be to discuss matters in relation to the school;
- (iii) the maximum number of meetings parents can ask for in any school year is three (3);
- (iv) there must be enough school days remaining in the school year to allow for a meeting.

Additionally:-

- (a) the meetings must be held before the end of a 25 day period;
- (b) the 25 day period begins the day after receiving the petition, but it doesn't include any days which aren't school days;

- (c) if there is a need to hold another meeting as a result of a different petition, the 25 day period will not begin until the day after holding the other meeting;
- (d) there must be enough school days remaining in the school year to hold the meeting before the end of the 25 day period;
- (e) meetings will be open to all parents of pupils registered at the school, the Headmaster and anybody else invited by the governing body;
- (f) the meeting notification to the parents must include the date, time and location of the meeting as well as the matter or matters to be discussed.

A copy of this report is available in the governors section on the school website – www.ysgolgymraeg.ceredigion.sch.uk. Every parent/guardian, staff and fellow governor is welcome to attend the school in order to discuss the report and to consider any matters raised.

There were 409 (equivalent to 385.5 full time) in the school in July 2013 with a Headmaster, Deputy Headmaster, 15 full time teachers and 6 part time teachers. Three of the full time members of staff operate as Heads of Department for the Foundation Phase, Key Stage 2 and the Additional Learning Needs Department. The school has over 20 Assistants who assist in the Foundation Phase and support students with Additional Learning Needs.

The school has an efficient and industrious team of support staff who support the work of providing the best opportunities for the pupils. The team includes a secretary, a caretaker, three cleaners, five lunchtime assistants and five members of kitchen staff.

Advisory Headmaster – The Headmaster has been acting as Advisory Headmaster since January 2011 and works with the Education Authority in order to support other schools and share good practice.

In Service Training

Full details of the courses attended by staff between September 2012 and August 2013 can be obtained from the school (examples of the courses can be seen below). We'd like to thank the staff for attending these courses.

Examples of In Service Training courses attended.

February 7 th	Mared Llwyd – training to assist the Education Authority to monitor Numeracy lessons
February 18 th	All school staff received training on creating self evaluation reports by Gillian Evans and Hilary McConell (staff meeting)
February 20 th	Headmaster attended a meeting with Newly Qualified Teachers
February 25 th	Dyfed Jones – assessment for learning in Physical Education
March 14 th	Angharad Morgan – mathematics in the Foundation Phase
March 19 th	Training on literacy and numeracy financial expenditure in Canolfan Rheidol
March 21 st	Gwenan Morgan – planning in the Foundation Phase
March 26 th	Eleri Jones – Foundation Phase training – external area
March 28 th	All school staff – a series of courses for assistants with the teachers concentrating on moderating
April 23 rd	Mared Llwyd – moderating language
April 24 th	Gareth James – moderating science
April 25 th	Dyfed Jones – moderating mathematics
April 26 th	Headmasters' Meeting in the National Library
April 30 th	Level 2 Child Protection Training for the Headmaster
May 13 th	Business meeting for area Headmasters in the school at 4 o' clock

April 25 th	Dyfed Jones – moderating mathematics
April 26 th	Headmasters' Meeting in the National Library
April 30 th	Level 2 Child Protection Training for the Headmaster
May 13 th	Business meeting for area Headmasters in the school at 4 o' clock

Annual Meeting (October 2012)

An enthusiastic meeting was had and following a presentation by the Headmaster and Chairman, a discussion was had regarding some specific subjects to do with learning and teaching and the School Development Plan.

Steps taken as a result of any decisions made in the meeting – No decisions were made during the October 2012 meeting.

Members of the governing body

The chairman of the governors is:

Professor Andrew Evans, Yr Ysgol Gymraeg, Plascrug Avenue, Aberystwyth, SY23 1HL.

The clerk of the governors is:

Lynda Stubbs, Ceredigion County Council Education Department, Canolfan Rheidol, Rhodfa Padarn, Llanbadarn Fawr, Aberystwyth, SY23 3UE.

The attachment gives a list of the school governors, who appointed them and the date their term in office comes to an end.

Financial details -

See the attachment which outlines a full statement of the school budget.

How does the school use the money received

- The school budget was used in order to ensure the best educational experiences for the students and to ensure suitable resources for them. The strength of the current arrangement is ensuring that we can maintain two classes in each year with the available finances. The school uses a literacy and numeracy grant received from the Authority in order to employ additional staff to raise standards in these areas.

Donations given to the school

Donations given to the school – a cheque was received for £100 from a parent as a sign of thanks for the school's work – the money was used to buy reading books for Key Stage 2.

Donations / contributions received – A total of around £2000 by the Parents Association which includes sponsorship by local businesses after sponsoring the Christmas and Summer concerts. The school greatly appreciates the support.

Governing board expenses or subsistence

Governors' travelling costs – No costs were paid to the governors during the year 2012-13. I'd like to thank my fellow governors for giving their service completely voluntarily for the benefit of the school.

The school's performance in end of Foundation Phase and Key Stage 2 assessments

Comparative information on pupils' assessments at the end of the Foundation Phase and Key Stage 2 – (see the results table)

The school is very pleased with the progress which can be seen in the pupils' assessments in both Key Stages (See the attachments on pupils' assessments). The excellent results are a reflection of the hard work by the pupils and staff and the cooperation of the parents/guardians. The school performs very well compared to similar schools both locally and nationally.

Pupils' attendance

Period	Attendance	Authorised absence	Unauthorised absence
Autumn	96.16	3.82	0.02
Spring	92.75	7.15	0.10
Summer	95.36	4.45	0.20
2012 -13	94.95	4.94	0.11

Commentary on the school's attendance

We are pleased with the school's average attendance. A target was set by the governors for the next three years.

Improving attendance and reducing unauthorised absences

The school follows specific steps to reduce unauthorised absences. Children who arrive late can have an effect on unauthorised absences. The school sends a letter to parents to emphasise punctuality and to draw attention to a situation where some take holidays during the school term. The school contacts parents / guardians where the attendance level is low or inconsistent.

Children leaving the school at the end of Year 6 – pupils at the end of Year 6 usually transfer to secondary schools in the town namely Penweddig and Penglais. The school has a positive partnership with the secondary schools and operates effective bridging schemes.

Fostering links between the School and the Community

The school is one of the town's main institutions and an integral part of the local community. The school makes particular use of local resources including the National Library, the University, the Leisure Centre, the Arts Centre and the local secondary school. The school went on a number of educational visits including Castell Henllys, the Botanical Garden, local farms, the Millennium Stadium, Glanllyn etc. The school performed for a number of local organisations and there is very good support for the two annual grand concerts in the Arts Centre.

Events were held in order to raise awareness and raise money for good causes during the year.

Parent Teacher Association / Friends of the School

I'd like to thank the Parent Teacher Association and all the friends of the school for their support during the year. The Parent Teacher Association is very industrious and enthusiastic and manages to hold various activities to raise money towards buying additional resources for the school and to organise social occasions with a family feel to them.

Activities were held throughout the year including a book fair, concerts, coffee afternoon, social evening / barbeque and a sponsored Christmas walking trip. There will be a full report of the activities and the money raised in the Parent Teacher Association annual meeting in the autumn term.

Our thanks as governors and school staff is very great to the Association for its special financial contribution which is a great help to pay for valuable resources for the benefit of the school. The Association is very busy and delivers all its activities with pride and enthusiasm.

Parent Meetings

An excellent partnership exists with the parents.

The following has been arranged

- Meeting of the governors and parents every October.
- Annual meeting of the Parent Teacher Association.
- Open evenings every term and an invitation for the parents to come to the school to receive their children's reports in July.
- An invitation for the parents to come to an open afternoon in the school.
- An invitation for the parents to attend morning assemblies.
- An invitation for the parents to attend the school sports day.
- Two big concerts are held every year (with around 700 attending each time).
- A meeting for the parents of children about to begin in the nursery.
- A meeting between the parents of children who are receiving support and the teachers.

The headmaster notes on every letter "if you have any concerns about your child's education, please contact me at once"

Use of the building / campus - Ysgol Gymraeg parent teacher meeting, some football teams, Welsh for adults lessons with childcare, yr Angor (Aberystwyth area paper) and a Bridge Club.

Links with the Police – Police officers work closely with the school and contribute positively to personal and social education activities. The police discuss with the School Council and assist with transport by the school entrance. The school is thankful for their cooperation.

Progress on the School Operational Plan (post inspection)

The school are implementing the Operational Plan following an Estyn report in February 2009. Here's a summary of the developments.

Key Issues	Summary of developments
Operational plan following the 2009 inspection (update)	
1. More purposeful planning of the opportunities for pupils to use their mathematics skills from day to day (Estyn 2009)	Continuing – since the Inspection the school has put a clear structure in place in order to ensure that numbers get weekly attention in the pupils' theme books. During the Headmaster's weekly monitoring of the pupils' books particular attention is given to the use of numbers across the curriculum. The appropriate use of numbers across the curriculum is discussed in staff meetings and there is a chance to share good practice. The school has developed a link between numbers and the themes of the Eco Committee for every class.
2. Cascading best practice with regards to responding to pupils' written work in Key Stage 2 (Estyn 2009)	Continuing – the pupils' theme books include work which has been carefully marked. Following the inspection we follow a pattern of ensuring that we give two positive comments and one comment on an aspect which needs improvement. We would expect to see these comments at least once every five activities in the theme books. The school has moved in the direction of having pupils in Key Stage 2 to use the two stars and a wish.

<p>3. Reconciling the quality of subject self evaluation reports with the best practices which already exist in the school, so that they express opinions on standards (Estyn 2009)</p>	<p>The coordinators will continue to study the pupils' work and to collect pieces of children's work which enrich the self evaluation report.</p> <p>The recent reports give attention to the pupils' performance data and a projection of their achievement for the coming year.</p> <p>Many of the Governors have spent periods in the school discussing with the subject coordinators in order to complete the subject self evaluation reports. A special staff meeting was held to look at self evaluation and in particular at adapting the reports which we already have. Gillian Evans and Hilary McConnell came to offer ideas on ways of collecting evidence and reporting our findings.</p>
<p>4. Continue to work with the local authority to ensure smooth movement for transport by the school entrance at busy times of the day</p>	<p>Developments near the main entrance have improved the provision and ensured a safer situation for the pupils and their parents / guardians.</p> <p>Since the last meeting the Headmaster, Mr Phil Thomas, Deputy Chairman of the Governors and Mrs Lowri Jones, Chairwoman of the Parent Teacher Association have been in a strategic meeting to discuss possibilities for managing the transport situation by the school. a good representation was had from the local schools, the Education Authority, the Transport / Highways Department and the Leisure Centre. Following a detailed discussion, it was agreed to send a letter to every parent in Plascrug and Ysgol Gymraeg explaining that it is possible to park for free near Camau Bach between 8.30 and 9.30 and at the end of the school day.</p> <p>The police regularly monitor parking by the school.</p>

Self Evaluation and the School Development Plan

The school's main priorities

1. Raise Literacy and Numeracy standards
2. Stretch the Able and Talented pupils
3. Develop ICT resources
4. Develop learning and teaching areas for the Foundation Phase
5. Improve the building
6. Develop the self evaluation document

Revise the School Development Plan

The school has made good progress in developing these aspects during the year – a full copy of the School Development Plan can be had from the headmaster.

Outcomes set by the Governing Body regarding the pupils' performance

Targets for the next three years

See below the targets for the number of pupils who will reach outcome 5 or higher in the Foundation Phase and level 4 or higher in Key Stage 2 for the next three years. The school sets these targets based on the current information we have on the pupils following annual teacher assessments. As well as this, we set a challenge level for the future in order to constantly raise standards.

	Summer 2014	Summer 2015	Summer 2016
Foundation Phase	98% (average)	98.1%	98.2%
Key Stage 2	98% (average)	98.1%	98.2%

Commentary

- The school has made good progress with regards to pupils' assessments in both Key Stages with regular improvement over the last three years.
- The results reflect positively on the challenging targets set every year.
- Following regular assessments and many tests the level / outcome each child reaches by the end of the year is noted. There is close contact between teachers in order to moderate levels and recognise the way forward for the individual child.
- The children receive regular targets for Language, Mathematics, Science and English in Key Stage 2.
- As a school we aim to ensure that 98% of children in the Foundation Phase and 98% of children in Key Stage 2 reach the expected level / outcome (outcome 5 or higher for the Foundation Phase and level 4 or higher for KS 2).

A detailed report is given to every parent at the end of the year and there are regular parents evenings and an opportunity to discuss the report at the end of the year.

Attendance targets

In order to reduce unauthorised absences the school has set challenging targets for attendance for the next three years. Regular letters from the school encourage a high level of attendance from all pupils.

Attendance targets for the educational year 2013 - 14	96.6%
Attendance targets for the educational year 2014 - 15	96.7%
Attendance targets for the educational year 2015- 16	96.8%

Excluding children

No children were excluded during the educational year 2012-13

Revising school policies and strategies – the school regularly revises policies in order to ensure the best provision for the pupils. During 2012-13 policies in relation to health and safety, child protection, bullying, and some curricular aspects were revised.

Acting after revising policies – The developments are monitored regularly in the meetings every term. School staff have received further training on child protection and developments have been made to ensure the safety of the external doors.

Sports and Extracurricular Activities

The school provides a variety of sporting activities in every aspect of Physical Education. The pupils gain skills and experiences from Nursery up to Year 6. The school experience success on a national level and in 2012-13 high standards were reached in national rounds in swimming, cross country, athletics a cricket.

There is a broad extracurricular programme which aims to satisfy the interests of all pupils in the school. The Urdd Club is held weekly where school staff volunteer to offer various activities for the pupils. The activities in Key Stage 2 include sports, art club, gymnastics club and various clubs for the Foundation Phase. The school supports hockey activities with the Mini Minor league.

A strong link exists between the school and the Urdd movement and pupils get rich experiences through following a programme of activities throughout the year. Every year the school staff prepare pupils for area, regional and national eisteddfods, and experience success in various fields on a

national level. Both concerts held in the Great Hall are very popular with the parents and the community.

Sporting Events and other Achievements

Changes to the school handbook – The handbook is revised and updated every term. A copy of the handbook is available on the school website or from the headmaster. There were no changes to the handbook during the current year.

Term dates for the year

Autumn Term – September 3rd – December 20th (half term October 28th – November 1st)

Spring Term – January 7th – April 11th (half term February 24th – 28th)

Summer Term – April 28th – July 18th (half term Mai 26th – 30th)

Days closed for INSET

September 2nd, 2013

November 15th, 2013

January 6th, 2014

February 21st, 2014

(another day to be confirmed)

Session Times

	KS 2	Foundation Phase	Nursery
School begins	9.00	9.00	9.00
Morning break	10.30 – 10.45	10.30 – 10.45	10.30 – 10.45
Lunch	12.00 – 1.00	11.45 – 1.00	11.50 – 1.15
Afternoon begins	1.00	1.00	1.15
Afternoon break	2.15 – 2.30	2.15 – 2.30	2.15 – 2.30
End time	3.30	3.30 (Yr 1 & 2) 3.20	3.20

Curriculum and teaching arrangements

The quality and variation of the learning experiences provided to the pupils across the school is excellent. A broad and balanced curriculum is offered which meets all the statutory requirements. The teachers continue to revise the curriculum in light of new developments. A strong emphasis is put on developing communication skills, number skills, IT skills and thinking skills. The school has planned carefully to operate the Foundation Phase. A copy of the School Development Plan can be had from the Headmaster. The school has two classes in every educational year.

